

# Alergedd i gyffuriau

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2014

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r cyngor ar alergedd i gyffuriau a nodir yng nghanllaw clinigol NICE 183.

### ***A yw'r wybodaeth hon yn berthnasol i mi?***

Ydy, os oes gennych alergedd i gyffuriau, neu os credwch fod gennych alergedd o'r fath. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i aelodau teulu neu ofalwyr pobl sydd ag alergedd i gyffuriau, neu y gallai fod ganddynt alergedd o'r fath.

## Alergedd i gyffuriau

Gall pob cyffur achosi sgil-efeithiau (neu 'adweithiau andwyol i gyffuriau'). Fe'u rhestrir ar y daflen gwybodaeth i gleifion a ddaw gyda phob cyffur. Yn llai cyffredin, gall rhywun gael alergedd i gyffuriau - adwaith alergaidd wedi'i achosi gan system imiwneidd yr unigolyn. Dim ond y math hwn o adwaith yr ymdrinnir ag ef gan ganllaw NICE ar alergedd i gyffuriau.

Gallwch gael alergedd i unrhyw gyffur, gan gynnwys cyffuriau dros-y-cownter a chyffuriau a ragnodir. Gallwch gael adwaith alergaidd i gyffur hyd yn oed os byddwch wedi'i gymryd o'r blaen heb broblem. Bydd rhai adweithiau yn digwydd o fewn munudau i gymryd y cyffur, a gallant ymddangos mewn gwahanol ffyrdd - er enghraifft, brech goch goslyd neu'r gwefusau a'r ardal o amgylch y llygaid yn chwyddo. Mewn achosion anghyffredin iawn, gall unigolyn gael adwaith difrifol o'r enw anaffylacsis. Mae hyn yn effeithio ar allu'r unigolyn i anadlu ac ar gylchrediad y gwaed a gall fod yn fygythiad i fywyd. Gall alergedd i gyffur hefyd achosi pwl o asthma mewn pobl ag asthma. Os byddwch yn cael adwaith difrifol, megis anaffylacsis neu bwl o asthma, bydd angen i chi weld meddyg ar unwaith.

Gall adweithiau alergaidd eraill gymryd diwrnodau neu wythnosau i ymddangos. Ond gallant ddatblygu'n gyflymach os byddwch wedi cael adwaith i'r un cyffur o'r blaen. Yn aml, mae adweithiau yn effeithio ar y croen. Weithiau gallant achosi symptomau o broblemau gyda'r gwaed a'r organau mewnol megis yr afu/iau a'r arenau.

## **Eich tîm gofal**

Gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn meysydd triniaeth neu gymorth gwahanol fod yn rhan o'ch gofal. Gallai'r rhain gynnwys meddygon teulu, nyrsys cymunedol, fferyllwyr, staff adrannau damweiniau ac achosion brys, nyrsys arbenigol ac alergyddion ymgynghorol (meddygon sy'n arbenigo mewn gofal alergeddau).

## ***Gweithio gyda chi***

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drafod eich alergedd i gyffuriau gyda chi. Dylai egluro unrhyw brofion, triniaethau neu gymorth y dylid eu cynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Gall aelodau o'ch teulu neu'ch gofalywr eich helpu i wneud penderfyniadau, ond dim ond os ydych yn cytuno iddynt wneud hynny. Mae'n bosibl y bydd angen cynnwys rhieni neu ofalwyr plant a phobl ifanc, gan ddibynnu ar eu hoedran. Mae [rhestr o gwestiynau](#) y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i siarad â'ch tîm gofal.

Efallai y byddwch hefyd am ddarllen gwybodaeth NICE i'r cyhoedd ar [Brofiadau cleifion mewn gwasanaethau'r GIG i oedolion](#). Mae'n nodi'r hyn y dylai oedolion allu ei ddisgwyl wrth ddefnyddio'r GIG. Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am [ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol](#).

## **Cysylltu â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol os credwch fod gennych alergedd i gyffuriau**

Os credwch eich bod yn cael adwaith alergaidd i gyffur, dylech weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Gallwch weld eich meddyg teulu neu, yn achos adweithiau difrifol, staff adran damweiniau ac achosion brys. Dylent eich archwilio a gofyn cwestiynau i chi am eich symptomau. Dylent ofyn i chi pa mor fuan ar ôl i chi gymryd y cyffur y dechreuodd y symptomau neu sawl dogn y gwnaethoch eu cymryd, a

ph'un a ydych wedi cael adwaith tebyg i'r cyffur hwnnw neu'r math hwnnw o gyffur o'r blaen. Bydd angen cymaint o fanylion â phosibl arnynt am y cyffur (dewch â'r deunydd pecynnu os yn bosibl) a'ch adwaith iddo. Dylent hefyd gadarnhau nad oes unrhyw reswm arall posibl dros eich symptomau.

Os bydd eich meddyg yn credu y gallai fod gennych alergedd i gyffur, dylai drafod yr hyn y mae hynny'n ei olygu gyda chi (ac aelodau o'ch teulu neu'ch gofalwyr fel y bo'n briodol). Dylai hefyd roi rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig i chi am yr alergedd. Fel arfer, bydd yn dweud wrthy'ch am roi'r gorau i gymryd y cyffur ac yn sicrhau eich bod yn deall pa gyffur neu fath o gyffur y bydd angen i chi ei osgoi yn y dyfodol. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw gyffur, p'un a gafodd ei ragnodi neu ei brynu dros y cownter. Dylech holi fferylllydd cyn cymryd unrhyw feddyginiaethau dros-y-cownter, oherwydd gallant gynnwys sawl cyffur gwahanol.

Bydd eich meddyg yn cynnig cyngor a thriniaeth i chi os bydd ei hangen i helpu i liniaru eich symptomau. Os bydd eich adwaith yn ddirifol, cewch eich anfon i'r ysbyty i gael triniaeth.

Mae NICE hefyd wedi llunio cyngor am gael triniaeth frys ar gyfer anaffylacsis.

Gweler [Canllawiau eraill NICE](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Formatted: Not Highlight

### ***Cofnodi bod amheuaeth eich bod wedi cael alergedd i gyffuriau***

Dylai eich meddyg ddatgan yn glir y wybodaeth ganlynol am yr amheuaeth eich bod wedi cael alergedd i gyffuriau yn eich cofnodion meddygol:

- enw (neu enwau) y cyffur neu'r cyffuriau y credir eu bod wedi achosi'r adwaith
- cryfder y cyffur ac ar ba ffurf y gwnaethoch ei gymryd (er enghraifft, tabled neu hylif)
- sut roeddech yn ei gymryd (er enghraifft, drwy'r geg neu bigiad)
- sawl dogn roeddech wedi'u cymryd neu ers faint o amser roeddech wedi bod yn cymryd y cyffur pan ddechreuodd y symptomau
- eich symptomau
- pam roeddech yn cymryd y cyffur
- dyddiad ac amser yr adwaith alergaidd
- pa gyffur neu gyffuriau y mae angen i chi eu hosgoi yn y dyfodol.

## ***Pryd y bydd angen i chi ymweld â gwasanaeth arbenigol ar gyfer alergedd i gyffuriau***

Mae'n bosibl y cewch eich atgyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer alergedd i gyffuriau gan eich meddyg i gael profion a chyngor. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o adwaith a gawsoch, difrifoldeb yr adwaith hwnnw a ph'un a oes gennych unrhyw gyflyrau meddygol eraill. Dylai eich meddyg eich atgyfeirio os bydd yn credu eich bod wedi cael anaffylacsis neu adwaith difrifol ar y croen i gyffur. Dylai hefyd eich atgyfeirio os oes gennych gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen i chi gymryd yr un cyffur neu'r un math o gyffur a achosodd eich alergedd posibl. I gael rhagor o wybodaeth o ran pryd y gellid eich atgyfeirio, gweler yr adran ar [Alergeddau i gyffuriau penodol](#).

Ar ôl i chi weld arbenigwr, dylai roi gwybodaeth ysgrifenedig i chi am y canlynol:

- eich adwaith a'r cyffur a'i achosodd
- y profion rydych wedi'u cael
- eich diagnosis (p'un a gawsoch adwaith alergaidd ai peidio)
- pa gyffur neu gyffuriau y mae angen i chi eu hosgoi yn y dyfodol
- unrhyw gyffuriau amgen diogel y gallwch eu defnyddio.

Os dangosodd y profion nad adwaith alergaidd i gyffur a achosodd eich symptomau, dylech gael gwybod y gallwch gymryd y cyffur hwnnw yn ddiogel unwaith eto. Dylid ychwanegu'r holl wybodaeth hon i'ch cofnodion meddygol.

## **Rhannu gwybodaeth am eich alergedd i gyffuriau**

Dylech bob amser gario'r wybodaeth a roddwyd i chi am eich alergedd i gyffur gyda chi a'i rhannu pa bryd bynnag y byddwch yn mynd i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Dylid gofyn i chi (neu aelodau o'ch teulu neu ofalwyr fel y bo'n briodol) am unrhyw alergeddau i gyffuriau bob tro y caiff cyffur ei ragnodi, ei roi (er enghraifft, mewn fferyllfa) neu pan fyddwch ar fin cael cyffur. Os na fydd hyn yn digwydd, dylech bob amser gynnig y wybodaeth hon o'ch gwirfodd, hyd yn oed os ydych yn yr ysbyty.

Dylid sicrhau bod y wybodaeth am eich alergedd i gyffuriau yn eich cofnodion meddygol yn gyfredol a dylid ei chynnwys mewn llythyrau a gaiff eu hanfon pan gewch eich atgyfeirio neu pan fyddwch yn gadael yr ysbyty.

## **Alergeddau i gyffuriau penodol**

### ***Cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd***

Mae gan rai unigolion alergedd i gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAID) annethol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aspirin, ibuprofen, diclofenac a naprocsen – cyffuriau cyffredin a ddefnyddir i leihau poen, llid a thwymyn.

Os amheuir bod gennych alergedd i gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd annethol, dylech osgoi eu cymryd. Mae rhai meddyginiaethau dros-y-cownter yn cynnwys y cyffuriau hyn, felly dylech bob amser gadarnhau gyda fferyllydd a darllen labeli pob meddyginiaeth yn ofalus.

Os byddwch wedi cael adwaith alergaidd ysgafn i gyffur gwrthlidiol ansteroidaidd annethol, gallai eich meddyg gynnig math gwahanol o gyffur gwrthlidiol ansteroidaidd i chi (o'r enw atalydd COX-2). Dylech drafod y risgiau a'r manteision gyda'ch meddyg yn gyntaf. Ond os bydd angen cyffur gwrthlidiol ansteroidaidd arnoch a'ch bod wedi cael adwaith difrifol, gyda symptomau megis anaffylacsis neu bwl o asthma, dylai eich meddyg eich atgyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer alergeddau i gyffuriau.

Mae rhai pobl sydd ag asthma a pholypau yn y trwyn (tyfiannau meinwe bach y tu mewn i'r trwyn) yn debygol o gael adwaith alergaidd i gyffuriau o'r fath. Gall eich meddyg roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

### ***Gwrthfotigau beta-lactam***

Grŵp o wrthfotigau sy'n cynnwys penicillin yw gwrthfotigau beta-lactam - dylech siarad â'ch meddyg os credwch fod gennych alergedd i'r rhain a bod angen eich trin gan ddefnyddio gwrthfotig. Dylid eich atgyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer alergeddau i gyffuriau i gael cyngor o ran p'un a allwch gael gwrthfotigau beta-lactam os amheuir bod gennych alergedd iddynt a:

- bod angen triniaeth arnoch ar gyfer salwch y gellir ond ei drin gan ddefnyddio gwrthfotig o'r grŵp hwn **neu**
- ei bod yn debygol y bydd angen gwrthfotig o'r grŵp hwn arnoch yn aml yn y dyfodol (er enghraifft, os ydych yn cael heintiau bacterol yn aml neu os yw eich system imiwnedd yn wan).

Mae'n bosibl y cewch eich atgyfeirio hefyd os amheuir bod gennych alergedd i wrthfotigau beta-lactam ac o leiaf un grŵp arall o wrthfotigau.

### ***Anestheteg lleol***

Defnyddir anestheteg lleol i ferwino rhannau penodol o'r corff yn ystod triniaeth feddygol. Dylid eich atgyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer alergeddau i gyffuriau os bydd angen triniaeth arnoch sy'n cynnwys anestheteg lleol na allwch ei chael oherwydd yr amheuir bod gennych alergedd i anestheteg lleol.

### ***Anestheteg cyffredinol***

Defnyddir anestheteg cyffredinol i'ch rhoi i gysgu cyn llawdriniaeth. Os amheuir bod gennych alergedd i anestheteg cyffredinol, dylid eich atgyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer alergeddau i gyffuriau i gael cyngor o ran p'un a allwch gael y cyffuriau hyn.

## **Cwestiynau i'w gofyn am alergeddau i gyffuriau**

Gall y cwestiynau hyn eich helpu i drafod eich cyflwr neu'r triniaethau a gynigiwyd i chi gyda'ch tîm gofal iechyd.

### ***Ynglŷn ag alergeddau i gyffuriau***

- A allwch ddweud mwy wrthyf am alergeddau i gyffuriau?
- Sut y byddaf yn gwybod p'un ai sgil-efeithiau neu adwaith alergaidd a achosodd fy symptomau?
- A ddylwn roi'r gorau i gymryd y cyffur sydd wedi achosi fy adwaith?
- A allaf gymryd yr un cyffur eto os achosodd adwaith alergaidd? A fyddai fy adwaith yn waeth y tro nesaf?
- Pa gyffur neu gyffuriau y mae angen i mi eu hosgoi yn y dyfodol a beth y gallwn ei gymryd yn eu lle?

- A allwch awgrymu beth y gallwn ei gadw gyda mi er mwyn hysbysu pobl am fy alergedd i gyffuriau?
- A oes unrhyw sefydliadau cymorth yn fy ardal leol a allai fy helpu?
- A allwch roi unrhyw wybodaeth ysgrifenedig i mi y gallaf ei rhannu gydag aelodau o'm teulu neu fy ngofalwyr?

### ***Darganfod beth sy'n bod (diagnosis)***

- Sut y gallaf ddarganfod yn bendant p'un a oes gennyf alergedd i gyffuriau?
- Pa fath o wybodaeth y gallwn ei rhoi i'm meddyg er mwyn helpu i wneud diagnosis o ran fy alergedd i gyffuriau (er enghraifft, ffotograffau o'm brech)?
- Os ydych wedi fy atgyfeirio i gael profion arbenigol, a allwch esbonio pam?

### **Ffynonellau cyngor a chymorth**

- Allergy UK, 01322 619 898  
[www.allergyuk.org](http://www.allergyuk.org)
- Ymgyrch Anaffylaxis, 01252 542 029  
[www.anaphylaxis.org.uk](http://www.anaphylaxis.org.uk)
- Asthma UK, 0800 121 6244  
[www.asthma.org.uk](http://www.asthma.org.uk)

Gallwch hefyd gysylltu ag [NHS Choices](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

### **Canllawiau eraill NICE**

- [Anaffylaxis](#). Canllaw clinigol NICE 134 (2011)
- [Casglu gwybodaeth am feddyginiath adeg derbyn claf i'r ysbyty](#). Canllawiau datrysiadau diogelwch cleifion NICE 1 (2007)

ISBN: 978-1-4731-0815-8